**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS, Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

**Rheoliadau REACH (Diwygio) 2026**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am fy mwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU osod a gwneud Rheoliadau REACH (Diwygio) 2026 ("y Rheoliadau").

Gwneir y Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig drwy arfer y pwerau wedi'u rhoi gan Erthyglau 68(1), 73(2) a 132A o Reoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH)(**a**) ("REACH y DU"). Byddant yn gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban ac yn unol ag Erthygl 69(1) maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 2 Mawrth 2026 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026. Mae'r Rheoliadau yn ceisio deddfu mewn maes o gymhwysedd y Senedd.

Mae erthygl 4A(3) yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru pan fo arfer swyddogaeth o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae hyn yn cynnwys pan fo arfer y swyddogaeth honno hefyd yn ymwneud â rhan o Brydain Fawr heblaw Cymru, h.y. mae'n berthnasol pan fo arfer y swyddogaeth yn ymwneud â Chymru a rhannau eraill o Brydain Fawr.

Yn unol â'r pwerau o fewn REACH y DU, yn enwedig Erthyglau 68 a 73, er bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud deddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru, nid oes gan Weinidogion Cymru eu hunain bŵer i wneud rheoleiddiadau. Felly, ni allai'r rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

Ysgrifennodd y Farwnes Hayman o Ullock ataf ar 27 Hydref 2025, yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i Reoliadau 2026. Mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban. Rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad ffurfiol i'r Farwnes Hayman o Ullock ar 12 Rhagfyr 2025, oni bai bod y pwyllgor yn codi unrhyw bryderon cyn y dyddiad hwnnw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Crynodeb o Reoliadau 2026

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Atodiad XVII o REACH y DU, gan gyflwyno cyfyngiadau newydd ar ddefnyddio bwledi sy'n cynnwys plwm a'i gyfansoddion a'u rhoi ar y farchnad. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod cyfraith y DU yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf ac ymrwymiadau polisi i leihau risgiau amgylcheddol ac iechyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau saethu sy'n defnyddio plwm.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Atodiad XVII i ychwanegu cofnodion a gofynion newydd ar gyfer teflynnau sy'n cynnwys plwm, gan gynnwys pelets a mathau eraill o fwledi. Mae'r diwygiadau'n pennu terfynau ar grynodiadau o blwm mewn teflynnau, ac yn nodi dyddiadau ar gyfer dod â'u defnydd i ben yn raddol ar feysydd saethu awyr agored ac mewn cyd-destunau eraill. Mae esemptiadau ar gyfer arfau awyr, athletwyr elitaidd, rhai disgyblaethau saethu, a defnyddiau proffesiynol penodol fel yr heddlu, y fyddin a phrofi technegol.

Mae darpariaethau ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd saethu awyr agored weithredu mesurau i leihau risg a chadw dogfennau ar gyfer awdurdodau gorfodi. Mae gofynion labelu'n cael eu cyflwyno ar gyfer rhai teflynnau sy'n cynnwys plwm, a rhaid i gyflenwyr gadw cofnodion o werthu i athletwyr elitaidd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi rhwymedigaethau hysbysu a chadw cofnodion ar gyfer defnyddwyr a chyflenwyr.

Rhoddir dyddiad penodol i bob categori o deflyn, ac erbyn y dyddiad hwnnw bydd defnyddio teflynnau o'r fath neu eu rhoi ar y farchnad yn cael ei wahardd, a bydd trefniadau pontio ar gyfer cydymffurfio ar waith. Y nod cyffredinol yw lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlwm mewn bwledi i fywyd gwyllt, da byw, pridd, dŵr ac iechyd y cyhoedd, wrth ddarparu esemptiadau cymesur ar gyfer rhai defnyddwyr a defnyddiau.

Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â Chymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru pan fo cymhwysedd gweithredol.

Ar yr achlysur hwn, credaf ei bod yn briodol i welliannau Llywodraeth y DU fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes gan Weinidogion Cymru y pwerau angenrheidiol i ddiwygio Atodiad XVII i REACH y DU. Yn ogystal, bydd gweithredu amserol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'n hymrwymiadau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd ac yn cynnal cysondeb rheoleiddiol ledled y DU.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs